

**Yr wybodaeth  
rydych chi'n ei  
rhannu gyda ni  
(hysbysiad  
preifatrwydd)**



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut rydyn ni'n gweithio o fewn y gyfraith i ddiogelu'r holl wybodaeth rydych chi'n ei rhannu gyda ni trwy'r arolwg. Mae hefyd yn esbonio sut byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ddiogel, a sut byddwn ni'n ei defnyddio.

### Ein partneriaid ar gyfer y gwaith hwn:

Llywodraeth Cymru

Plant yng Nghymru

Senedd Ieuenctid Cymru

### Beth rydyn ni'n ceisio ei gyflawni â'r arolwg:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael cyfle i rannu eu barn a'u profiadau o orfod aros adref oherwydd y Coronafeirws;
- Darparu gwybodaeth i lunwyr polisi yng Nghymru yn uniongyrchol gan bobl ifanc, i lywio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- Sicrhau bod Comisiynydd Plant Cymru (CPC) yn gallu deall profiadau plant a gweithredu fel pencampwr ar gyfer eu blaenoriaethau a'u hanghenion.

Bydd yr arolwg yn cael ei gwblhau gan blant a phobl ifanc unigol.

### Gwybodaeth bwysig am yr arolwg:

Mae'r holiadur yma'n un:

Dienw. Dyw e ddim yn gofyn am eich enw nac enw eich hysgol neu unrhyw sefydliad sy'n eich cefnogi.

Gwirfoddol. Does dim rhaid i chi gymryd rhan. Gallwch orffen cymryd rhan yn yr arolwg ar unrhyw adeg, heb roi rheswm.

Mae'r holiadur wedi'i greu ac yn gallu cael ei gwblhau ar feddalwedd arbennig i arolygon, o'r enw Snap Surveys.

### Sut byddwn ni'n defnyddio ac yn storio'r wybodaeth o'r holiadur:

Yn y pen draw Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am yr holl ddata rydyn ni'n ei gasglu a'i rannu yn ystod y prosiect hwn. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod hyn i gyd yn cadw at yr holl gyfreithiau diogelu data perthnasol.

Ein sail gyfreithlon ar gyfer gwneud y gwaith yma yw: Sail tasg gyhoeddus (Erthygl 6 (1) (e) o GDPR).

### Sut byddwn ni'n defnyddio'r data:

Byddwn ni'n gwneud yr holl ddata yn ddienw (felly fydd enw neb yn cael ei gynnwys) cyn ei rannu gyda'n partneriaid, Llywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd yr wybodaeth ddienw yma yn helpu Llywodraeth Cymru ac eraill i wrando ar farn plant a phobl ifanc yn ystod argyfwng y Coronafeirws ac yn eu helpu i wneud y penderfyniadau cywir i gadw plant yn hapus, yn iach ac yn ddiogel yn ystod yr argyfwng a'r tu hwnt.



Fe fyddwn ni'n cyhoeddu canlyniadau'r holiadur. Ni fydd unrhyw adroddiad yn cynnwys manylion personol pobl sydd wedi cymryd rhan.

Efallai y byddwn yn rhannu rai o ganlyniadu'r holiadur gyda awdurdodau lleol. Os fyddwn ni'n penderfynu gwneud hyn, ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rannu.

Efallai y byddwn yn rhannu canlyniadau'r arolwg gyda sefydliad sy'n gwarchod gwybodaeth am bethau pwysig sydd wedi digwydd yng Nghymru. Pwrpas gwneud hyn fyddai sicrhau bod yna record swyddogol o farn plant a phobl ifanc yn ystod y Coronafeirws. Os fyddwn ni'n penderfynu gwneud hyn, ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rannu.

### Sut byddwn ni'n storio'r data:

Caiff y data ei storio gan SNAP yn unol â'u [polisi preifatrwydd](#) a'u [polisi diogelu data](#)

Bydd yr holl ddata dienw a gawn gan SNAP a'r holl ddogfennau cysylltiedig eraill yn cael eu rhannu gyda'n partneriaid, yn unol â pholisi diogelu data'r Comisiynydd a'i hamserlen ar gyfer cadw data.

### Diogelu

Byddwn ni'n darparu rhif ffôn Childline a Meic ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd am drafod unrhyw beth sy'n eu poeni ar ôl cwblhau'r holiadur. Ar ddiwedd yr holiadur fe fyddwch chi'n glanio ar wefan y Comisiynydd Plant, lle welwch chi lawer o gyngor, cefnogaeth, gwybodaeth a manylion cyswllt y Comisiynydd.

Os bydd rhywun yn gwneud datgeliad mewn unrhyw ymateb, e.e. yn ysgrifennu am eu sefyllfa bresennol ac yn nodi sut mae cysylltu â nhw, bydd Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor profiadol o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn adolygu'r dystiolaeth yn erbyn polisi diogelu'r Comisiynydd ac yn penderfynu a ddylen nhw gysylltu â'r unigolyn. Yr unig dro fydd y swyddfa'n cysylltu os oes yna fanylion i wneud hynny a dim ond os byddwn ni'n pryderu am ddiogelwch y plentyn.



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales